Chwaraeon Cymru

# Chwaraeon Cymru

# Tendr Fframwaith Ymgynghorwyr Addysg - Holiadur Cymhwyso

20fed Mai 2026

# Holiadur Cymhwyso

## 1. Cyfarwyddyd a Chyfarwyddiadau

1.1 Yn unol â Rhan 18 o'r ddogfen Gwahoddiad i Dendro, mae'n ofynnol i dendrwyr gwblhau a dychwelyd Holiadur Cymhwyso fel rhan o'u hymateb i'r tendr. Cyfeiriwch at Ran 20 o'r Gwahoddiad i Dendro am gyd-destun llawn ynghylch yr Holiadur Cymhwyso.

1.2 Mae'r Holiadur Cymhwyso yn deillio o Holiadur Safonol Caffael Cymru (WPSQ).

1.3 Mae'n ofynnol i dendrwyr ymateb i'r holl gwestiynau rhagarweiniol yn yr Holiadur Cymhwyso. Rhowch ymateb o fewn pob cell lle mae'r testun wedi'i amlygu mewn melyn.

1.4 Gall yr Holiadur Cymhwyso gynnwys nifer o amodau cyfranogiad sy'n ymwneud â'r gofynion isafswm, gorfodol y mae'n rhaid i dendrwr eu bodloni i gael ei ystyried yn addas ar gyfer ystyriaeth; oni bai y nodir yn glir fel arall, lle bynnag y nodir cwestiwn yn yr Holiadur Cymhwyso fel Llwyddo / Methu, bydd ymateb o 'Na' neu fethu ag ymateb o gwbl yn cael ei ystyried fel methu â bodloni amodau cyfranogiad Chwaraeon Cymru a bydd yn gwneud ymateb y tendrwr yn annilys. Bydd yr ymateb yn cael ei ddiystyru ac ni fydd yn cael ei werthuso ymhellach.

1.5 Lle gofynnir yn benodol am wybodaeth ategol (e.e. tystysgrifau, polisïau ac ati) gellir darparu'r rhain fel atodiad i'ch ymateb.

1.6 Darperir tabl o derminoleg meini prawf dyfarnu allweddol sy'n gysylltiedig â'r Holiadur Cymhwyso isod:

| **Terminoleg Meini Prawf Dyfarnu** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| **Ie / Na** | Lle gofynnir i chi wneud hynny, rhowch ymateb 'Ie' neu 'Na' i'r cwestiwn. |
| **Ar Gyfer Gwybodaeth Yn Unig** | Bydd yr ymateb a ddarperir i Chwaraeon Cymru yn cael ei gadw a'i ystyried at ddibenion gwybodaeth yn unig ac ni fydd yn cael ei sgorio.<br>Os ystyrir bod cwestiwn 'Ar Gyfer Gwybodaeth Yn Unig' yn amherthnasol, rhaid darparu ymateb o 'Ddim yn Berthnasol' (yn hytrach na rhoi dim ymateb o gwbl). |
| **Llwyddo / Methu** | Oni bai y nodir yn glir fel arall, lle bynnag y nodir cwestiwn fel Llwyddo / Methu, ystyrir bod ymateb o 'Na' yn fethiant i fodloni gofynion sylfaenol Chwaraeon Cymru a bydd yn gwneud ymateb y tendrwr yn annilys. Bydd yr ymateb yn cael ei ddiystyru ac ni fydd yn cael ei werthuso ymhellach. |

1.7 Mae Adran 3 yn darparu Ffurflen y Tendr ar gyfer y cyfle Gwahoddiad i Dendro hwn; rhaid i dendrwyr lofnodi a dychwelyd Ffurflen y Tendr er mwyn i'w hymateb gael ei ystyried fel ymateb sy'n cydymffurfio i'w gynnwys yn y broses werthuso.

# 2. Cyfarwyddyd a Chyfarwyddiadau

## 2.1 Gwybodaeth Gyswllt

| Cyf. | Cwestiwn | Dull Asesu | Ymateb y Tendrwr |
|---|---|---|---|
| **2.1.1** | Rhowch enw prif gyswllt eich sefydliad mewn perthynas â'r ymateb i'r tendr. | Llwyddo / Methu | [Rhowch enw'r prif gyswllt] |
| **2.1.2** | Rhowch deitl swydd prif gyswllt eich sefydliad. | Llwyddo / Methu | [Rhowch deitl swydd y prif gyswllt] |
| **2.1.3** | Rhowch gyfeiriad e-bost ar gyfer prif gyswllt eich sefydliad. | Llwyddo / Methu | [Rhowch gyfeiriad e-bost y prif gyswllt] |
| **2.1.4** | Os yw'n berthnasol, rhowch ail gyfeiriad e-bost ar gyfer eich sefydliad, i'w ddefnyddio os bydd unrhyw broblemau gyda chysylltu â'r prif gyswllt. | Llwyddo / Methu | [Rhowch ail gyfeiriad e-bost] |

## 2.2 Cwestiynau Rhagarweiniol

| Cyf. | Cwestiwn | Dull Asesu | Ymateb y Tendrwr |
|---|---|---|---|
| **2.2.1** | Rhowch enw Cwmni cofrestredig eich sefydliad. | Llwyddo / Methu | [Rhowch enw'r Cwmni cofrestredig] |
| **2.2.2** | Rhaid i'ch sefydliad fod wedi'i gofrestru ar y Platfform Digidol Canolog. Rhowch ddynodydd unigryw Platfform Digidol Canolog eich sefydliad. | Llwyddo / Methu | [Rhowch y dynodydd CDP unigryw] |
| **2.2.3** | Rhowch Rif Sefydliad Caffael Cyhoeddus (PPON) eich sefydliad. | Llwyddo / Methu | [Rhowch y dynodydd PPON unigryw] |
| **2.2.4** | Cadarnhewch a yw eich sefydliad yn cynnig fel unig gyflenwr (gyda neu heb is-gontractwyr) neu fel rhan o grŵp neu gonsortiwm. | Llwyddo / Methu | [Rhowch ymateb:<br>Unig Gyflenwr<br>neu<br>Rhan o Grŵp / Consortiwm] |
| **2.2.5** | Os ydych chi'n cynnig fel rhan o grŵp neu gonsortiwm (gan gynnwys os ydych chi'n bwriadu sefydlu endid cyfreithiol i gyflawni'r contract), rhowch: | Llwyddo / Methu | [Rhowch ymateb:<br><br>**a.** [Enw'r grŵp / consortiwm] |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **a.** enw'r grŵp / consortiwm.<br>**b.** strwythur arfaethedig y grŵp / consortiwm, gan gynnwys y strwythur cyfreithiol lle bo hynny'n berthnasol.<br>**c.** enw'r aelod arweiniol yn y grŵp / consortiwm.<br>**d.** eich rôl yn y grŵp / consortiwm (e.e. aelod arweiniol, aelod consortiwm, is-gontractwr).<br><br>**Os ydych chi'n cynnig fel unig gyflenwr, atebwch 'Ddim yn Berthnasol'.** | | **b.** [Strwythur arfaethedig y grŵp / consortiwm, gan gynnwys y strwythur cyfreithiol lle bo hynny'n berthnasol]<br>**c.** [Enw'r aelod arweiniol yn y grŵp / consortiwm]<br>**d.** [Rôl eich sefydliad yn y grŵp / consortiwm (e.e. aelod arweiniol, aelod consortiwm, is-gontractwr)]<br><br>[**Neu**, os ydych chi'n cynnig fel unig gyflenwr, atebwch 'Ddim yn Berthnasol'] |
| | | | |
| **2.2.6** | Ydi eich sefydliad ar y rhestr waharddedig? | Llwyddo / Methu | [Rhowch ymateb: Ie / Na] |
| **2.2.7** | Os gwnaethoch chi ateb 'Ie' i 2.2.6 uchod, rhowch fanylion.<br><br>Os gwnaethoch chi ateb 'Na' i 2.2.6, atebwch 'Ddim yn Berthnasol' | Llwyddo / Methu | [Rhowch ymateb, naill ai:<br><br>Os 'Ie' i 2.2.6, rhowch fanylion<br>**NEU**<br>Os 'Na' i 2.2.6, atebwch 'Ddim yn Berthnasol'] |

## 2.3 Gwybodaeth am y Cwmni

| | | | |
|---|---|---|---|
| **2.3.1** | Rhaid i'ch sefydliad gyflwyno gwybodaeth gyfredol am gyflenwyr craidd ar y Platfform Digidol Canolog (CDP). Rhannwch y wybodaeth hon ar ffurf PDF.<br><br>Dylai hyn gynnwys:<br><br>**a.** Gwybodaeth sylfaenol.<br>**b.** Gwybodaeth am y sefyllfa economaidd ac ariannol. | Llwyddo / Methu | [Atodwch ffeil PDF neu gadarnhau bod y PDF wedi cael ei huwchlwytho fel rhan o ymateb eich sefydliad] |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **c.** Gwybodaeth am bersonau cysylltiedig (personau yw'r rhain sydd â'r hawl i arfer, neu sydd yn arfer, dylanwad neu reolaeth sylweddol dros y cyflenwr, neu y mae gan y cyflenwr yr hawl i arfer, neu y mae'n arfer, dylanwad neu reolaeth sylweddol drostynt, er enghraifft: cyfarwyddwyr, cyfranddalwyr mwyafrifol a rhiant-gwmnïau ac is-gwmnïau).<br>**d.** Gwybodaeth am sail unrhyw wahardd. | | |
| **2.3.2** | Cadarnhewch eich bod wedi rhannu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn 2.3.1 fel rhan o ymateb eich sefydliad. | Llwyddo / Methu | [Rhowch ymateb: Ie / Na] |

## 2.4 Gwybodaeth Eithrio Ychwanegol

| | | | |
|---|---|---|---|
| **2.4.1** | Ydi eich sefydliad yn dibynnu ar unrhyw berson(au) cysylltiedig* i fodloni'r amodau cyfranogiad?<br>Mae'r amodau cyfranogiad wedi'u hamlinellu yn yr Holiadur Cymhwyso hwn a'r ddogfen Gwahoddiad i Dendro.<br><br>*Cyflenwyr eraill yw'r rhain a allai fod yn is-gontractwyr neu'n aelodau o'r consortiwm, ond nid yn warantwyr. | Llwyddo / Methu | [Rhowch ymateb: Ie / Na] |
| **2.4.2** | Os gwnaethoch chi ateb 'Ie' i 2.4.1, ar gyfer pob person cysylltiedig, cadarnhewch pa amod(au) cyfranogiad mae eich sefydliad yn dibynnu arnynt i'w bodloni.<br><br>Os gwnaethoch chi ateb 'Na' i 2.4.1, atebwch 'Ddim yn Berthnasol' | Llwyddo / Methu | [Rhowch ymateb, naill ai:<br><br>Os 'Ie' i 2.4.1, nodwch enw pob person cysylltiedig a disgrifiad byr o'r amod(au) cyfranogiad<br>**NEU**<br>Os 'Na' i 2.4.1, atebwch 'Ddim yn Berthnasol'] |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **2.4.3** | Os gwnaethoch chi ateb 'Ie' i 2.4.1, ar gyfer pob is-gontractwr / person cysylltiedig, cadarnhewch eu bod wedi cofrestru ar y CDP a rhannu'r wybodaeth hon drwy PDF.<br><br>Dylai hyn gynnwys:<br><br>**a.** Gwybodaeth sylfaenol.<br>**b.** Gwybodaeth am y sefyllfa economaidd ac ariannol.<br>**c.** Gwybodaeth am bersonau cysylltiedig (personau yw'r rhain sydd â'r hawl i arfer, neu sydd yn arfer, dylanwad neu reolaeth sylweddol dros y cyflenwr, neu y mae gan y cyflenwr yr hawl i arfer, neu y mae'n arfer, dylanwad neu reolaeth sylweddol drostynt, er enghraifft: cyfarwyddwyr, cyfranddalwyr mwyafrifol a rhiant-gwmnïau ac is-gwmnïau).<br>**d.** Gwybodaeth am sail unrhyw wahardd.<br><br>Os gwnaethoch chi ateb 'Na' i 2.4.1, atebwch 'Ddim yn Berthnasol' | | [Rhowch ymateb, naill ai:<br><br>Os 'Ie' i 2.4.1, atodwch ffeil PDF neu gadarnhau bod y PDF wedi cael ei huwchlwytho fel rhan o ymateb eich sefydliad<br>**NEU**<br>Os 'Na' i 2.4.1, atebwch 'Ddim yn Berthnasol'] |
| **2.4.4** | Os gwnaethoch chi ateb 'Ie' i 2.4.1, cadarnhewch eich bod wedi rhannu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn 2.4.3 fel rhan o ymateb eich sefydliad. | Llwyddo / Methu | [Rhowch ymateb, naill ai:<br><br>Os 'Ie' i 2.4.1, Ie / Na<br>**NEU**<br>Os 'Na' i 2.4.1, atebwch 'Ddim yn Berthnasol'] |
| **2.4.5** | Os gwnaethoch chi ateb 'Ie' i 2.4.1, cadarnhewch a oes unrhyw rai o'r personau cysylltiedig ar y rhestr waharddedig. | | [Rhowch ymateb, naill ai:<br><br>Os 'Ie' i 2.4.1, Ie / Na. Os 'Ie' rhowch fanylion<br>**NEU**<br>Os 'Na' i 2.4.1, atebwch 'Ddim yn Berthnasol'] |

## 2.5 Rhestr o'r Holl Is-gontractwyr a Fwriedir

| | | | |
|---|---|---|---|
| **2.5.1** | Nodwch:<br><br>**a.** Rhestr o'r holl gyflenwyr trydydd parti y mae eich sefydliad yn bwriadu is-gontractio rhywfaint neu'r cyfan o'r cytundeb fframwaith iddynt i'w gyflawni.<br>**b.** Eu dynodydd unigryw, naill ai rif CDP, rhif Tŷ'r Cwmnïau, rhif elusen, rhif TAW neu gyfatebol.<br>**c.** Disgrifiad byr o'u rôl arfaethedig wrth gyflawni'r cytundeb fframwaith. | Llwyddo / Methu | [Rhowch ymateb, naill ai:<br><br>Os 'Ie' i 2.5.1, nodwch enw pob is-gontractwr, eu dynodydd unigryw a disgrifiad byr o'u rôl<br>**NEU**<br>Os 'Na' i 2.5.1, atebwch 'Ddim yn Berthnasol'] |
| **2.5.2** | Os gwnaethoch chi ateb 'Ie' i 2.5.1, cadarnhewch a oes unrhyw rai o'r is-gontractwyr a fwriedir ar y rhestr waharddedig. | Llwyddo / Methu | [Rhowch ymateb, naill ai:<br><br>Os 'Ie' i 2.5.1, Ie / Na. Os 'Ie' nodwch enw'r is-gontractwr a rhowch fanylion<br>**NEU**<br>Os 'Na' i 2.5.1, atebwch 'Ddim yn Berthnasol'] |

## 2.6 Yswiriant

| Cyf. | Cwestiwn | Dull Asesu | Ymateb y Tendrwr |
|---|---|---|---|
| **2.6.1** | Rhowch fanylion (tystysgrifau ac ati) am bob yswiriant perthnasol gan eich sefydliad. | Ar Gyfer Gwybodaeth Yn Unig | Darparwch gopïau o dystysgrifau yswiriant eich sefydliad. |

## 2.7 Amodau Cyfranogiad

| Cyf. | Cwestiwn | Dull Asesu | Ymateb y Tendrwr |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| **2.7.1** | Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol, posibl neu ymddangosiadol rhwng eich sefydliad a Chwaraeon Cymru? | Llwyddo / Methu | [Rhowch ymateb: Ie / Na] |
| **2.7.2** | Cadarnhewch fod gan eich sefydliad, neu y bydd ganddo, erbyn dyddiad y dyfarniad, yr adnoddau dynol a thechnegol yn eu lle i sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR) ac i sicrhau bod hawliau pynciau data yn cael eu gwarchod. | Llwyddo / Methu | [Rhowch ymateb: Ie / Na] |
| **2.7.3** | Cadarnhewch fod eich sefydliad yn bodloni, neu y bydd yn bodloni, os bydd yn llwyddiannus, ofynion Mesur y Gymraeg. | Ar Gyfer Gwybodaeth Yn Unig | [Rhowch ymateb: Ie / Na] |
| **2.7.4** | Ydi eich sefydliad wedi dal achrediad Hanfodion Seibr, neu a yw'n gweithio tuag at gyflawni achrediad Hanfodion Seibr? | Ar Gyfer Gwybodaeth Yn Unig | [Ar Gyfer Gwybodaeth Yn Unig: Rhowch ymateb] |

# 3. Ffurflen y Tendr

Rwyf i / Rydym ni sydd wedi llofnodi isod drwy hyn yn ardystio’r canlynol:

3.1 Mae fy nhendr / ein tendr wedi’i fwriadu i fod yn gystadleuol, ac nid wyf i / ydym ni wedi pennu nac addasu swm y tendr drwy neu oddi tano yn unol ag unrhyw gytundeb neu drefniant gydag unrhyw berson neu sefydliad arall.

3.2 Nid wyf i / ydym ni wedi dynodi i unrhyw berson neu sefydliad arall heblaw am Chwaraeon Cymru swm neu swm bras y tendr arfaethedig ac eithrio lle'r oedd datgelu swm bras y tendr yn gyfrinachol yn angenrheidiol i gael premiwm yswiriant neu ddyfynbrisiau eraill a oedd yn angenrheidiol ar gyfer paratoi'r tendr.

3.3 Nid wyf i / ydym ni wedi ymrwymo i unrhyw gytundeb na threfniant gydag unrhyw berson arall fel eu bod yn ymatal rhag tendro neu ofyn am swm unrhyw dendr arall i'w gyflwyno.

3.4 Rwyf i / rydym ni yn ardystio nad ydym wedi, ac na fyddwn wedi yn y dyfodol, canfasio na holi unrhyw gyflogai yn Chwaraeon Cymru mewn cysylltiad â dyfarnu'r tendr hwn ac nad oes unrhyw berson a gyflogir gennyf i / gennym ni neu sy'n gweithredu ar fy / ein rhan wedi gwneud unrhyw weithred o'r fath.

3.5 Rwyf i / rydym ni yn cytuno â Chwaraeon Cymru mewn termau cyfreithiol rwymol i gydymffurfio â'r darpariaethau cyfrinachedd a nodir yn y ddogfen Gwahoddiad i Dendro.

3.6 Ar ôl archwilio'r Gwahoddiad i Dendro a'r dogfennau cysylltiedig a bod yn gwbl fodlon ynghylch fy / ein gallu a'n profiad ym mhob agwedd i fodloni'r gofynion yn llawn, rwyf i / rydym ni drwy hyn yn cynnig darparu'r gwasanaethau a bennir ynddynt am y cyfraddau a gyflwynwyd yn unol â'm / ein llyfr gwaith ymateb Masnachol sydd wedi'i gwblhau.

3.7 Rwyf i / rydym ni yn cytuno i dalu'r holl gostau sy'n codi i mi / ni mewn cysylltiad â pharatoi a chyflwyno'r tendr hwn ac i dalu unrhyw gostau pellach sy'n codi i mi / ni cyn dyfarnu unrhyw Gontract.

3.8 Rwyf i / rydym ni yn nodi y bydd y Contract yn ddilys wrth ei dderbyn a llofnodi'r ddogfen (dogfennau) contract gan y ddau barti, ac mai'r dyddiad dechrau ar gyfer darparu gwasanaethau o dan y contract yw 10fed Awst 2026, oni bai fod dyddiad arall wedi'i gytuno a'i gynnwys yn y contract.

| **Ffurflen y Tendr** | |
|---|---|
| **Llofnod:** | Nodwch destun |
| **Enw Mewn Prif Lythrennau:** | Nodwch destun |
| **Teitl y Swydd:** | Nodwch destun |
| **Ar Gyfer ac Ar Ran (enw'r Cwmni):** | Nodwch destun |
| **Cyfeiriad:** | Nodwch destun |
| **Dyddiad:** | Nodwch destun |